# Agenda - Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 2 - Y Senedd**

Dyddiad: Dydd Mercher, 20 Mawrth 2024

Amser: 09.15-12:30

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Fay Bowen**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddCCGG@senedd.cymru

# Hybrid

## Darlledir y cyfarfod hwn yn fyw ar www.senedd.tv

## (Rhag-gyfarfod preifat)

(09:00-09:15)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(09:15)

## 2 Papurau i'w nodi

(09:15-09:25)

**2.1 Llythyr gan Gyfarwyddwr Cyffredinol y Grŵp Newid Hinsawdd a Materion Gwledig mewn ymateb i adroddiad y Pwyllgor ar Adfywio Canol Trefi**

(Tudalennau 1 - 9)

**Dogfennau atodol:**

PAPAC(06)-05-24-PTN1-Llywodraeth Cymru-Adfywio Canol Trefi

**2.2 Llythyr gan Brif Weithredwr a Chadeirydd Iechyd a Gofal Digidol Cymru: diweddariad yn dilyn y gwaith craffu a wnaed ar y cyd â'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol mewn perthynas ag adroddiad Iechyd a Gofal Digidol Cymru**

(Tudalennau 10 - 11)

**Dogfennau atodol:**

PAPAC(06)-05-24-PTN2-Llythyr gan Iechyd a Gofal Digidol Cymru

2.3 **Llythyr gan Lywodraeth Cymru yn dilyn sesiwn dystiolaeth y Pwyllgor ar Gyflenwi ar gyfer Absenoldeb Athrawon**

(Tudalennau 12 - 16)

**Dogfennau atodol:**

PAPAC(06)-05-24-PTN3-Llywodraeth Cymru-Cyflenwi ar gyfer Absenoldeb Athrawon

## 3 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd ar gyfer eitemau 4, 7 ac 8 o'r cyfarfod heddiw

(09:25)

## 4 Papur i'w nodi (PREIFAT): Llythyr gan yr Ysgrifennydd Parhaol ar ymddeoliad rhannol y Cyfarwyddwr Priodoldeb a Moeseg

(09:35-09:30) (Tudalennau 17 - 20)

**Dogfennau atodol:**

PAPAC(06)-05-24-PTN1(PREIFAT)-Ymddeoliad Rhannol y Cyfarwyddwr Priodoldeb a Moeseg

## 5 Sesiwn dystiolaeth: Craffu ar Gyfrifon ac Adroddiad Blynyddol Llywodraeth Cymru 2022-23 (Rhan 1)

(09:30-10:30) (Tudalennau 21 - 49)

<u>Swyddogion Llywodraeth Cymru</u>

Dr Andrew Goodall - Ysgrifennydd Parhaol a Phrif Swyddog Cyfrifyddu

Tim Moss - Prif Swyddog Gweithredu

Gawain Evans - Cyfarwyddwr Cyllid

Dominic Houlihan - Cyfarwyddwr Pobl a Lleoedd

**Dogfennau atodol:**

PAPAC(06)-05-24-P1-Briff Ymchwil

### (Egwyl)

(10:30-10:45)

## 6 Sesiwn dystiolaeth: Craffu ar Gyfrifon ac Adroddiad Blynyddol Llywodraeth Cymru 2022-23 (Rhan 2)

(11:45-12:15)

Swyddogion Llywodraeth Cymru

Dr Andrew Goodall – Ysgrifennydd Parhaol a Phrif Swyddog Cyfrifyddu

Tim Moss – Prif Swyddog Gweithredu

Gawain Evans – Cyfarwyddwr Cyllid

Dominic Houlihan – Cyfarwyddwr Pobl a Lleoedd

## 7 Trafod y dystiolaeth: Craffu ar Gyfrifon ac Adroddiad Blynyddol Llywodraeth Cymru 2022-23

(11:45-12:15)

## 8 Blaenraglen Waith

(12:15-12:30) (Tudalennau 50 – 81)

**Dogfennau atodol:**

PAPAC(06)-05-24-P2-Blaenraglen Waith (Saesneg yn unig)

PAPAC(06)-05-24-P3-Adroddiad Archwilio Cymru-Ymdrin â Heriau Wrth Iddynt Godi i Ddiogelu at y Dyfodol

**Tracey Burke**
Cyfarwyddwr Cyffredinol / Director General

Y Grŵp Newid Hinsawdd a Materion Gwledig
Climate Change and Rural Affairs Group

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mark Isherwood AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

5 Mawrth 2024

Annwyl Gadeirydd

**ADRODDIAD Y PWYLLGOR CYFRIFON CYHOEDDUS A GWEINYDDIAETH GYHOEDDUS: ADFYWIO CANOL TREFI**

Rwy'n ysgrifennu atoch i amgáu ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad uchod.

Cofiwch bod dolenni i ddogfennau ar-lein o fewn y llythyr.
Carwn ddiolch i chi ac i Aelodau'r Pwyllgor am y gwaith yr ydych wedi'i wneud i greu'r adroddiad. Rydym yn falch o dderbyn y pedwar argymhelliad yn llawn.
Mae canol trefi a dinasoedd llwyddiannus yn hanfodol i les amgylcheddol, economaidd, cymdeithasol a diwylliannol Cymru. Felly, mae cefnogi adfywio canol ein trefi yn parhau i fod yn flaenoriaeth i WeinidogionCymru.
Byddwn yn parhau i gyflawni ymrwymiadau ar gyfer Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru a gweithredu'r camau yn ein Datganiad Sefyllfa Canol Trefi. Bydd adroddiad ac argymhellion y Pwyllgor yn gwneud cyfraniad gwerthfawr i'r gwaith hwn.
Gadewch imi wybod os hoffech ragor o wybodaeth neu eglurhad.

**Tracey Burke**
Director General, Climate Change and Rural Affairs Group

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel 0300 0258047
tracey.burke@gov.wales
Gwefan ● website: www.wales.gov.uk

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Ymateb ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus ar Adfywio Canol Trefi.**

**Argymhelliad 1.**
Dylai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor, yng nghyd-destun y materion a godwyd yn adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol, ar y camau y mae'n eu cymryd i gefnogi cynnydd y Cyd-bwyllgorau Corfforaethol, ynghyd ag amserlenni ar gyfer gweithredu, os o gwbl.
**Ymateb: Derbyn**
Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu'r adroddiad cryno ar gynnydd Cyd-bwyllgorau Corfforaethol (CJCs) a gyhoeddwyd gan Archwilio Cymru ar 14 Tachwedd 2023. Rydym yn nodi'r cyfeiriad cadarnhaol at gynnydd sy'n cael ei wneud gan bob CJC. Er nad yw'r adroddiad yn cynnwys unrhyw argymhellion i Weinidogion Cymru, rydym yn cydnabod yr angen i barhau i gefnogi gweithrediad parhaus CJCs i fynd i'r afael â'r heriau y mae'r adroddiad yn eu nodi.
Mae Gweinidogion sydd â chyfrifoldeb am bwerau a dyletswyddau amrywiol CJCs yn bwriadu cryfhau trefniadau ar gyfer ymgysylltu strategol ar y cyd rheolaidd â Chynghorau Cymuned i drafod materion, gan gynnwys y rhai a godwyd yn adroddiad Archwilio Cymru. Mae hyn yn cynnwys cyfarfod gyda Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion CJC bob chwe mis, gan gynnwys y diweddaraf ar 5 Chwefror. Ochr yn ochr â hynny, mae uwch swyddogion hefyd wedi dechrau cyfres o gyfarfodydd chwarterol gyda Phrif Weithredwyr CJC.
**Goblygiadau Ariannol: Dim**

**Argymhelliad 2.**
*Byddai’r Pwyllgor yn gwerthfawrogi eglurhad pellach ynghylch yr adnoddau a ddyrennir i bob Cyd-bwyllgor Corfforaethol ac mae’n gofyn i Lywodraeth Cymru rannu dadansoddiad o gyfansoddiad pob grŵp, gyda rhagor o wybodaeth am gyllid ac adnoddau.*
**Ymateb: Derbyn**
Yn y pen draw, awdurdodau lleol sydd i wneud penderfyniadau ar adnoddau'r rhwymedigaethau statudol sydd i'w harfer drwy CJCs. Pwrpas deddfu i alluogi CJCs yn y meysydd polisi hyn oedd cryfhau gallu'r awdurdodau drwy gydweithio.
Gellir dod o hyd i fanylion daearyddiaeth ac aelodaeth pob un o'r CJC yn y rheoliadau atodedig.
Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforedig De-ddwyrain (Cymru) 2021(legislation.gov.uk)
Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforedig y De-orllewin (Cymru) 2021
Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforedig y Canolbarth (Cymru) 2021
Trheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd (Cymru) 2021
Darparwyd cyllid ychwanegol o £250,000 ar gyfer pob CJC gan Lywodraeth Cymru yn 2021-2022 i gefnogi eu sefydlu ac wedi hynny gwnaethom ddarparu cyllid parhaus trwy'r Setliad o 2022-23 i gefnogi eu darpariaeth barhaus.
Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi sicrhau bod £125,000 yn ychwanegol ar gael yn 2023-24 i bob CJC a £100,000 yn 2024-25 i bob CJC i gefnogi datblygiad Cynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol a Chynlluniau Datblygu Strategol.
**Goblygiadau Ariannol: Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu talu o gyllidebau presennol.**

**Argymhelliad 3.**
Dylai Llywodraeth Cymru egluro sut y bydd y Cyd-bwyllgorau Corfforaethol sy'n gweithredu'r Cynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol yn cael eu hariannu, pa ganllawiau y byddant yn gweithio yn unol â nhw a beth yw'r amserlenni manwl ar gyfer gweithredu.

**Ymateb: Derbyn**
Fel y nodwyd mewn ymateb i argymhelliad 2, yn ogystal â chyllid Setliad ar gyfer y gweithgaredd hwn, mae Llywodraeth Cymru wedi sicrhau bod £125,000 arall ar gael yn y flwyddyn ariannol hon i bob CJC a £100,000 arall yn 2024-25 i bob CJC i gefnogi datblygiad Cynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol a Chynlluniau Datblygu Strategol.
Roedd Canllawiau'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn cynnwys amserlenni dangosol a gweithgareddau i gwblhau'r gwaith er mwyn ei alluogi i gael ei gymeradwyo ar gyfer cyfnod cyflawni 2025 – 2030.
Mae pob CJC wedi cytuno â Llywodraeth Cymru sut y bydd eu Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn cael ei greu, felly dylai gweithgarwch gan y CJC fod yn mynd rhagddo'n dda.
Gellid ariannu ariannu'r prosiectau a'r mentrau yn y dyfodol o fewn y Cynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol cymeradwy drwy amrywiaeth o ffyrdd: cyllidebau uniongyrchol Awdurdodau Lleol, cronfeydd trafnidiaeth rhanbarthol Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU neu fuddsoddiad preifat. Bydd Llywodraeth Cymru a Trafnidiaeth Cymru yn gweithio gyda'r CJCs i ddatblygu amcangyfrifon realistig ymlaen llaw er mwyn helpu i lywio cwmpas Cynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol.

**Goblygiadau Ariannol: Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu talu o gyllidebau presennol.**

**Argymhelliad 4.**
Mae'r Pwyllgor yn cytuno ag argymhelliad yr Archwilydd Cyffredinol bod angen dull mwy ymyriadol gan awdurdodau cynllunio ac mae'n gofyn i Lywodraeth Cymru egluro sut y bydd yn ceisio cryfhau polisi cynllunio i ffafrio datblygiad canol trefi yn well, yn hytrach na datblygiad y tu allan i'r dref, drwy gamau ymyrraeth, yn enwedig i fynd i'r afael â phroblem eiddo gwag.
**Ymateb: Derbyn**
Mae gan *Bolisi Cynllunio Cymru* a *Chymru'r Dyfodol* bolisïau clir sy'n hyrwyddo egwyddorion canol trefi yn gyntaf ar gyfer y system gynllunio yng Nghymru. Er bod y fframwaith polisi wedi'i sefydlu, byddwn yn gweithredu'r polisi drwy graffu manwl ar Gynlluniau Datblygu Lleol diwygiedig.
Mae'r argymhelliad hwn yn cysylltu'n agos â datganiad sefyllfa Canol trefi Llywodraeth Cymru a gyhoeddwyd ym mis Mai 2023 lle mae'r Llywodraeth yn ymrwymo i gryfhau gweithrediad polisi Canol y Dref yn Gyntaf wrth gynllunio a grymuso cynllunwyr lleol i wrthod datblygiadau nad ydynt yn bodloni'r polisi a chynnig cynlluniau newydd ar gyfer ailddefnyddio datblygiadau y tu allan i drefi yn addasol. Ar ben hynny, byddwn yn cynnal adolygiad o Hawliau Datblygu a Ganiateir (PDR) ac yn ymgynghori ar ba mor briodol yw cyflwyno PDRau newydd ar gyfer canol trefi er mwyn caniatáu newid defnydd heb fod angen caniatâd cynllunio. Byddwn hefyd yn ystyried a ddylid ymestyn y Cyfarwyddyd Hysbysu i gynnwys cynigion manwerthu, masnachol a datblygu'r sector cyhoeddus y tu allan i ganol trefi.
**Goblygiadau Ariannol: Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu talu o gyllidebau presennol.**

**Argymhelliad 5.**
Mae'r Pwyllgor yn gofyn i Lywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf am yr ymgynghoriad ar ryddhad gwella ardrethi annomestig yng Nghymru a beth yw'r cynigion presennol ar gyfer cyflwyno'r rhyddhad hwn.

**Ymateb: Derbyn**

Yn dilyn ymgynghoriad, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi y bydd rhyddhad gwelliannau newydd yn cael ei ddarparu i gefnogi talwyr ardrethi sy'n buddsoddi mewn gwelliannau sy'n cynyddu gwerth ardrethol yr eiddo y maent ynddynt.

Mae *Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Rhyddhad Gwelliannau) (Cymru) 2023* bellach wedi'u gwneud yn gyfraith a byddant yn dod i rym ar 1 Ebrill 2024.

Rydym wedi cyhoeddi canllawiau ar ryddhad gwelliannau.

**Goblygiadau Ariannol: Dim**

**Argymhelliad 6.**
Dylai Llywodraeth Cymru lunio dogfen ganllaw gynhwysfawr ar gyfer awdurdodau lleol, sy'n amlinellu'n glir yr opsiynau sydd ar gael i awdurdodau lleol o ran ail-bwrpasu eiddo gwag, sy'n grymuso awdurdodau lleol i deimlo bod ganddynt gefnogaeth i ddefnyddio camau llym a fydd yn arwain at ganlyniadau cadarnhaol.
**Ymateb: Derbyn**
Mae rhaglen Unnos yn arwain strategaeth sydd â'r nod o sicrhau bod yr Awdurdodau Lleol yn cynyddu darpariaeth tai cymdeithasol a fforddiadwy newydd. Trwy gymorth Unnos, mae awdurdodau lleol yn cymryd camau gorfodi priodol ar eiddo gwag ac adfeiliedig. Mae’r rhaglen yn cynnwys menter i ddatblygu dogfen ganllaw i awdurdodau lleol ar gartrefi gwag. Mae'r rhaglen yn parhau i ddarparu cyngor a chymorth arbenigol i'r diwydiant i awdurdodau lleol ar y ffordd orau o ddefnyddio eu holl bwerau i ailddefnyddio eiddo.
Bydd cyngor arbenigol y diwydiant yn parhau drwy gydol 2024-25, a bydd y ddogfen ganllaw yn cael ei chwblhau erbyn diwedd blwyddyn galendr 2024.
**Goblygiadau Ariannol: Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu talu o gyllidebau presennol.**

**Argymhelliad 7.**
Dylai Llywodraeth Cymru gynnal adolygiad o'r cymorth ariannol sydd ar gael i awdurdodau lleol ar gyfer ailbwrpasu eiddo gwag ac ystyried a yw'r cynlluniau hyn, a'r arian a ddyrannwyd iddynt, yn ddigonol i gyflawni eu hamcanion. Dylai'r adolygiad hwn ystyried casgliadau Archwilydd Cyffredinol Cymru ac a yw'r cynlluniau'n ddigon ymyriadol yn eu rhagolygon.
**Ymateb: Derbyn**
Yn ystod 2024-25, bydd Llywodraeth Cymru yn adolygu, gyda mewnbwn gan awdurdodau lleol a rhanddeiliaid eraill, y cymorth ariannol sydd ar gael i fynd i'r afael ag eiddo gwag. Bydd hyn yn cynnwys asesiad a yw'r pecyn o ymyriadau sydd ar gael i awdurdodau lleol i fynd i'r afael ag eiddo gwag yn ddigonol i gyflawni eu hamcanion.
**Goblygiadau Ariannol: Dim. Caiff costau eu tynnu o gyllidebau sy'n bodoli eisoes.**

**Argymhelliad 8.**
Dylai Llywodraeth Cymru adolygu meini prawf ei chymhellion canol trefi i sicrhau bod y meini prawf yn cynnig cymaint o hyblygrwydd â phosibl, o fewn paramedrau a nodwyd gan Lywodraeth Cymru, i awdurdodau lleol ddosbarthu cyllid yn seiliedig ar ei harbenigedd lleol ei hunain.
**Ymateb: Derbyn**
Mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gyda swyddogion awdurdodau lleol ledled Cymru yn lleol ac yn rhanbarthol i gyflwyno prosiectau adfywio.
Gellir defnyddio'r rhaglen Trawsnewid Trefi i gefnogi amrywiaeth o brosiectau yng nghanol trefi a dinasoedd. Mae hyn yn cynnwys ailddefnyddio gofod manwerthu gwag, darparu mwy o fannau gwyrdd a darparu llety newydd neu lety wedi'i adnewyddu i fusnesau.
Bydd Llywodraeth Cymru yn cynnal adolygiad o'i rhaglen Trawsnewid Trefi yn 2024-25. Bydd hyn yn cynnwys asesiad o'r meini prawf a ddefnyddir i asesu ceisiadau am gyllid.
**Goblygiadau Ariannol: Dim. Caiff costau eu tynnu o gyllidebau sy'n bodoli eisoes.**

GIG CYMRU NHS WALES
Iechyd a Gofal Digidol Cymru
Digital Health and Care Wales

Tŷ Glan-yr-Afon
21 Heol Ddwyreiniol
y Bont-Faen,
Caerdydd

Tŷ Glan-yr-Afon
21 Cowbridge Road
East, Cardiff
CF11 9AD

14 Chwefror 2024

Russell George AS
Cadeirydd
Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Mark Isherwood AS
Cadeirydd
Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Sicrwydd Cyhoeddus

Annwyl Russell a Mark,

**Ymateb Dilynol IGDC i Graffu Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol Senedd Cymru a Phwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus ar Adroddiad Iechyd a Gofal Digidol Cymru**

Darparodd IGDC ei ymateb i adroddiad ar y cyd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus a'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar 16 Awst 2023. Roedd yr adroddiad yn cynnwys 16 o argymhellion, ac ymatebwyd i bob un ohonynt.

O'r 16 argymhelliad, roedd angen diweddariad pellach ar 3 argymhelliad erbyn diwedd 2023 ac roeddem yn falch o gyflwyno'r diweddariad ar 19 Rhagfyr 2023.

Roedd angen diweddaru 3 argymhelliad pellach erbyn diwedd mis Chwefror 2024. Manylir ar yr argymhellion hyn a'n hymatebion diweddaraf isod:

**Argymhelliad 3:** Dylai Llywodraeth Cymru ac Iechyd a Gofal Digidol Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf bob chwe mis i'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus ar y cynnydd o ran darparu System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (WCCIS). Dylai'r diweddariadau gynnwys gwybodaeth am wariant hyd yma, gwariant arfaethedig, nifer y byrddau iechyd ac awdurdodau lleol sy'n manteisio ar WCCIS, ac ymgysylltu neu ymgynghori â phartneriaid perthnasol. Dylid darparu'r diweddariad cyntaf yn yr ymatebion i'r adroddiad hwn.

**Ymateb IGDC i Argymhelliad 3:** Darllenwch ein Papurau Pwyllgor Cyflawni Rhaglenni a gyhoeddwyd ar Safle Rhyngrwyd IGDC. Mae'r papurau'n cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf o ran darpariaeth System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru.

02920 500 500
igdc.gig.cymru | dhcw.nhs.wales

GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd a Gofal Digidol Cymru
Digital Health and Care Wales

Tŷ Glan-yr-Afon
21 Heol Ddwyreiniol
y Bont-Faen,
Caerdydd

Tŷ Glan-yr-Afon
21 Cowbridge Road
East, Cardiff
CF11 9AD

**Argymhelliad 10:** Dylai Iechyd a Gofal Digidol Cymru ddarparu rhagor o dystiolaeth ynghylch y systemau adnoddau dynol a'r capasiti sydd ar gael i hwyluso'r gwaith o recriwtio a chadw pobl â sgiliau arbenigol. Dylai hyn gynnwys gwybodaeth sy'n nodi ble mae'r bylchau allweddol a'r swyddi gwag, sut mae camau gweithredu i fynd i'r afael â'r bylchau yn cael eu blaenoriaethu, a pha gamau sy'n cael eu cymryd i liniaru'r risgiau i gyflawni sy'n deillio o'r swyddi gwag. Yn dilyn darparu'r wybodaeth hon yn ei ymateb i'r adroddiad hwn, dylai IGDC roi diweddariadau cynnydd pob chwe mis i'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus.

**Ymateb IGDC i Argymhelliad 10:** Mae Grŵp Adnoddau Strategol, a sefydlwyd yn 2022, dan gadeiryddiaeth y Cyfarwyddwr Pobl a Datblygu Sefydliadol yn parhau i gyfarfod i sicrhau bod bylchau sgiliau'n cael eu cydnabod ac yn cael sylw i liniaru'r risgiau sy'n deillio o swyddi gwag. Darllenwch Bapurau Bwrdd Ionawr 2024 IGDC a Phapurau'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Chwefror 2024 ac am ddiweddariadau ar Gynllunio Gweithlu Strategol.

**Argymhelliad 15:** Dylai Iechyd a Gofal Digidol Cymru ymgysylltu â'i sefydliadau partner i werthuso ei ddulliau cydweithredu presennol, a nodi meysydd i'w gwella a chyfleoedd i gryfhau perthnasoedd. Yn ei ymateb i'r adroddiad hwn, dylai Iechyd a Gofal Digidol Cymru amlinellu sut bydd yn cynnal y gwerthusiad hwn. Yna, bob chwe mis, dylai roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus ar sut mae'n cydweithio â'i bartneriaid a'r hyn y mae cydweithredu o'r fath wedi'i gyflawni.

**Ymateb IGDC i Argymhelliad 15:** Yn flaenorol, gwnaethom eich cyfeirio at ein Papurau Bwrdd ym mis Medi 2023 a gyhoeddwyd ar Safle Rhyngrwyd IGDC a oedd yn cynnwys diweddariad manwl yn amlinellu cynnydd yn erbyn ein Cynllun Ymgysylltu â Rhanddeiliaid. Mae gennym raglen ymgysylltu sefydledig sy'n cynnwys sesiynau strategol rheolaidd gyda'n partneriaid allweddol i gefnogi darpariaeth gydweithredol o gynlluniau ar y cyd y cytunwyd arnynt. Mae hyn yn cynnwys partneriaid GIG Cymru, partneriaid masnachol a chyrff a sefydliadau cenedlaethol. Fel rhan o'r rhaglen waith hon a hefyd drwy ein hymagwedd gwrando a dysgu ehangach, mae gennym fecanweithiau adborth cryf, gan gynnwys gweithdai partneriaeth, sesiynau ffocws, a phrosiectau darganfod. Rydym yn gwella hyn drwy gynnal arolwg rhanddeiliaid annibynnol. Mae IGDC wedi gosod y gwaith hwn ar dendr ddiweddar ond nid oeddem yn gallu penodi cyflenwr. Rydym yn gweithio trwy opsiynau cyflwyno ar gyfer arolwg annibynnol, tra'n parhau â'n gwaith mewnol ar weithdai myfyriol a sesiynau adborth. Byddwn yn parhau i ddarparu diweddariadau bob chwe mis i'n Bwrdd, ac mae'r diweddariad nesaf wedi'i drefnu i fynd i'n cyfarfod cyhoeddus Bwrdd SHA ar 28 Mawrth 2024.

Yn gywir,

Helen Thomas
Prif Weithredwr

Simon Jones
Cadeirydd

02920 500 500
igdc.gig.cymru | dhcw.nhs.wales

**Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus**

**Gwybodaeth ychwanegol yn dilyn y sesiwn dystiolaeth ar 21 Chwefror 2024 ar gyflenwi am absenoldeb athrawon.**

1. **Mewn perthynas â'r Adolygiad o'r Fframwaith, a fydd bellach yn cael ei gynnal bob chwarter, pa mor aml roedd yn cael ei gynnal yn flaenorol (paragraffau 97-98)?**

Cynhelir adolygiad llawn o fanyleb y fframwaith a'r Telerau ac Amodau, ochr yn ochr â chydweithwyr ym maes Addysg, cyn yr ymarfer ailgaffael bob pedair blynedd.

Caiff perfformiad asiantaethau ei adolygu drwy drefniadau rheoli'r fframwaith a data adrodd a gyflwynir gan gyflenwyr bob chwarter. Mae'r adolygiad hwn wedi cael ei gynnal bob chwarter ers dechrau cytundeb fframwaith 2019.

2. **Mewn perthynas â ffioedd asiantaeth, gwnaethoch gytuno i ddarparu ffigurau ychwanegol ar wariant Llywodraeth Cymru drwy'r fframwaith asiantaeth (paragraffau 100-101).**

Er mwyn egluro, gwariant awdurdodau lleol yw'r gwariant drwy'r fframwaith asiantaeth yn hytrach na gwariant uniongyrchol Llywodraeth Cymru.

Nid yw cyfanswm y gwariant, sef £101m, yn elw i asiantaethau yn y sector preifat yn unig. Cyflog fydd y rhan fwyaf o'r ffigur hwn a fydd yn cael ei drosglwyddo i weithwyr cyflenwi, ynghyd â chostau deddfwriaethol cyflogaeth (pensiwn, Yswiriant Gwladol ac ati). Er ei bod yn anodd bod yn fanwl gywir o gofio nifer yr asiantaethau ar y fframwaith (a'u ffioedd asiantaeth gwahanol), mae elfen ffi'r asiantaeth wrth drefnu athro cyflenwi yn cyfrif am oddeutu 16% o gyfanswm y taliad. O gymhwyso hyn at y ffigur o £101m byddai hynny'n cyfateb i oddeutu £16m a gadwyd gan asiantaethau yn y sector preifat am y cyfnod hwn rhwng y 24 o asiantaethau ar y fframwaith yn ystod y cyfnod adrodd hwnnw (39 o asiantaethau sydd ar y fframwaith presennol).

Dylid cofio hefyd o ran y gwariant hwn, fod rhaid i asiantaethau hefyd dalu am ddarparu gwasanaethau a chostau ychwanegol (nid dim ond darparu'r gweithiwr a thalu amdano). Mae'r costau hyn yn cynnwys staff cymorth a rheolwyr cyfrifon swyddfa gefn, gwasanaethau'r gyflogres, gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a gwiriadau diogelu, achrediad ac archwiliadau blynyddol gan gorff achredu cymeradwy, cydymffurfiaeth â pholisi hanfodion seiber a lleihau carbon, ynghyd â darparu hyfforddiant a datblygu ar gyfer eu gweithwyr (darparwyd dros 2000 o gyrsiau hyfforddiant gan asiantaethau yn 2023).

3. **Gofynnodd Cadeirydd y Pwyllgor am ragor o wybodaeth ynghylch a arweiniodd y model a awgrymwyd gan Owain Lloyd (para 120) at gostau is neu uwch ar y cyfan na model yr asiantaeth (para 121). A allwch ddarparu'r wybodaeth hon?**

Yn 2022, mae'r data'n nodi mai isafswm cost cyflogi athro cyflenwi drwy awdurdod lleol neu'n uniongyrchol gan ysgol ar y pwynt cyflog isaf (M2) yw £198 y dydd. Mae hyn yn cynnwys costau'r Cynllun Pensiwn Athrawon o 23.68% a chyfraniadau yswiriant gwladol y cyflogwr. Gall ysgol neu awdurdod lleol ddewis talu'r athro cyflenwi ar bwynt cyflog uwch ar y brif ystod cyflog neu'r ystod cyflog uwch, am fwy o gost. Nid yw'r costau cyflogaeth hyn yn cynnwys unrhyw amser rheoli na chostau gweinyddu, hysbysebu neu recriwtio y bydd yr ysgol neu'r awdurdod lleol yn mynd iddynt.

Roedd y gost o gyflogi athro cyflenwi drwy asiantaeth sydd wedi'i chofrestru ar y fframwaith cenedlaethol yn 2022 rhwng £188 a £218, yn dibynnu ar ffi'r asiantaeth; y cyfartaledd oedd £190 yn seiliedig ar ffi ddyddiol gyfartalog o £22. Mae cyfradd ddyddiol yr asiantaeth yn cynnwys cyfraniad pensiwn gweithle Nest (3.5%).

4. **Gwnaethoch gytuno i ddarparu ffigurau wedi'u diweddaru ar gyfer 2022-23 am wariant a nifer y diwrnodau cyflenwi a weithiwyd drwy'r fframwaith asiantaeth yn ôl rôl.**

Nodir defnydd yn ôl rôl mewn diwrnodau ac mae wedi'i fonitro ers 2019:

| | (Sept 19 - March 20) *only 8 months data* | | | | *(Apr 23 - Dec 23) only 9 month data* |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Days** | | | | |
| **Role** | **2019/20** | **2020/21** | **2021/22** | **2022/23** | ***2023/24*** |
| Supply Teacher | 99,136 | 100,173 | 220,173 | 214,120 | *198,627* |
| Teaching Assistant | 150,542 | 155,230 | 257,703 | 376,757 | *391,261* |
| Cover Supervisor | 12,108 | 10,686 | 19,875 | 16,820 | *23,832* |
| **TOTAL** | **261,786** | **266,089** | **497,751** | **607,697** | ***613,720*** |

| | **%** | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Role** | **2019/20** | **2020/21** | **2021/22** | **2022/23** | ***2023/24*** |
| Supply Teacher | 37.9 | 37.6 | 44.2 | 35.2 | *32.4* |
| Teaching Assistant | 57.5 | 58.3 | 51.8 | 62.0 | *63.8* |
| Cover Supervisor | 4.6 | 4.0 | 4.0 | 2.8 | *3.9* |
| **TOTAL** | **100.0** | **100.0** | **100.0** | **100.0** | ***100.0*** |

5. **Gwnaethoch gytuno hefyd i ddarparu gwybodaeth am gost gyfartalog ffioedd asiantaeth yn ôl awdurdod lleol ac i ba raddau y maent yn wahanol, ar sail lleoliad.**

Ceir crynodeb o ffioedd dyddiol cyfartalog yr asiantaethau (pob asiantaeth sy'n rhan o'r fframwaith) isod:

Cyfartaledd Cymru gyfan ar gyfer pob asiantaeth sy'n rhan o'r fframwaith: £41.13
Cyfartaledd Gogledd Cymru ar gyfer pob asiantaeth sy'n rhan o'r fframwaith: £42.71
Cyfartaledd De-ddwyrain Cymru ar gyfer pob asiantaeth sy'n rhan o'r fframwaith: £40.46
Cyfartaledd De-orllewin a Chanolbarth Cymru ar gyfer pob asiantaeth sy'n rhan o'r fframwaith: £40.85

Mae'r uchod yn cymharu ffioedd ar gyfer pob asiantaeth sy'n rhan o'r fframwaith ac nid yw'n cyfrif am yr asiantaethau hynny a ddefnyddir amlaf. Fel y cyfryw, mae'r dadansoddiad canlynol wedi'i ddarparu hefyd.

Ceir crynodeb o ffioedd dyddiol cyfartalog yr asiantaethau (y 5 asiantaeth uchaf o ran gwariant) isod:

Cyfartaledd Cymru gyfan ar gyfer y 5 asiantaeth uchaf (o ran gwariant) o dan y fframwaith: £36.91
Cyfartaledd Gogledd Cymru ar gyfer y 5 asiantaeth uchaf (o ran gwariant) o dan y fframwaith: £40.00
Cyfartaledd De-ddwyrain Cymru ar gyfer y 5 asiantaeth uchaf (o ran gwariant) o dan y fframwaith: £35.20
Cyfartaledd De-orllewin a Chanolbarth Cymru ar gyfer y 5 asiantaeth uchaf (o ran gwariant) o dan y fframwaith: £36.98

Mae'r asiantaethau hyn yn cyfrif am oddeutu 75% o gyfanswm gwariant y fframwaith. Mae hyn yn dangos ffi asiantaeth gyfartalog is ym mhob ardal o Gymru, ond mwy o wahaniaeth yn y ffi asiantaeth gyfartalog rhwng y de a'r gogledd. Yr esboniad tebygol am hyn yw mai dim ond 2 o'r 5 asiantaeth uchaf sy'n gweithredu yn y gogledd. Mae llawer mwy o asiantaethau'n gweithredu yn y de (oddeutu 30) o gymharu â'r gogledd (oddeutu 15), ac felly mae mwy o ddewis a chystadleuaeth.

At hynny, mae'r asiantaeth sydd â'r gwariant / defnydd uchaf yn codi'r un ffi asiantaeth ar gyfer pob un o'r 22 ardal awdurdod lleol yng Nghymru, felly nid oes gwahaniaeth daearyddol.

Fel y nodwyd uchod, mae'r ffi asiantaeth hon o oddeutu £40 y dydd ond yn cyfrif am 16% o gyfanswm y taliad dyddiol am athro cyflenwi.

6. **Gofynnodd y Cadeirydd am allu'r llwyfan archebu i hwyluso unigolion sy'n newid o fodel asiantaeth i fodel cyflogi uniongyrchol (para 172). A allwch roi gwybodaeth am hyn, fel y cytunwyd?**

Mae'r manylion am union fodel cyflogaeth y llwyfan yn parhau i gael eu hystyried wrth inni archwilio sut y gall swyddogaethau allweddol weithio ar lefel genedlaethol. Fodd bynnag, byddem yn disgwyl, fel y mae pethau ar hyn o bryd, y byddai'r rhai a gyflogir drwy asiantaeth yn gallu newid yn hawdd i fodel cyflogi gwahanol (e.e. cyflogaeth uniongyrchol), pe baent yn dymuno gweithio drwy'r llwyfan.

7. **Gwnaethoch gytuno i ddarparu rhagor o wybodaeth am y canlynol, yn benodol yng nghyd-destun arolwg Cymdeithas Genedlaethol yr Ysgolfeistri ac Undeb yr Athrawesau o athrawon cyflenwi o 2021-22, a ganfu fod 31% o athrawon cyflenwi "had not been given access to continuing professional development opportunities in the last 12 months (paragraffau 202-205):**

Mae'r Hawl Genedlaethol ar gyfer Dysgu Proffesiynol, y model Ysgolion fel Sefydliadau sy'n Dysgu a safonau proffesiynol yn helpu ysgolion a lleoliadau i

feithrin diwylliant o ddysgu proffesiynol ac ymholi i bawb, gan gynnwys athrawon cyflenwi.

Mae gwefan Hwb wedi cael ei datblygu ymhellach ers arolwg Cymdeithas Genedlaethol yr Ysgolfeistri ac Undeb yr Athrawesau, gan gynnwys newidiadau i ardal dysgu proffesiynol newydd. Mae'r adran gyflenwi hon yn amlinellu'r llwybrau amrywiol sy'n agored i athrawon cyflenwi fanteisio ar gyfleoedd dysgu proffesiynol, gan gynnwys cysylltu â Phasbort Dysgu Proffesiynol Cyngor y Gweithlu Addysg ar gyfer dysgu proffesiynol, yn ogystal â chrynhoi opsiynau eraill, gan gynnwys mynediad at brosesau'r Gymraeg a sefydlu. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn: https://hwb.gov.wales/dysgu-proffesiynol/athrawon-cyflenwi/.

Nod yr ardal dysgu proffesiynol newydd yw cynnig un pwynt mynediad at ddarpariaeth dysgu proffesiynol hawdd ei defnyddio o ansawdd uchel, er mwyn diwallu anghenion yr holl weithwyr addysg proffesiynol.

Rydym yn parhau i ddatblygu'r ardal newydd. Mae hyn yn cynnwys gweithio gydag ystod eang o feysydd polisi mewnol, yn ogystal â rhanddeiliaid allanol, er mwyn parhau i nodi darpariaeth dysgu proffesiynol briodol, berthnasol, o ansawdd uchel i'w chynnwys yn y cynnig dysgu proffesiynol er mwyn cefnogi pob ymarferydd yn ei ddatblygiad parhaus.

8. **Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cymryd, neu y mae'n bwriadu eu cymryd, o dan y fframwaith asiantaeth newydd i gasglu data ar ddefnydd ac effaith dysgu proffesiynol a ddarperir gan asiantaethau?**

Mae Llywodraeth Cymru yn casglu data ar nifer ac enwau'r cyrsiau hyfforddiant a ddarperir gan asiantaethau sy'n rhan o'r fframwaith yn ystod pob chwarter a nifer y gweithwyr sydd wedi cael hyfforddiant yn ystod y cyfnod hwn.

9. **Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i gasglu data ar ddefnydd ac effaith dysgu proffesiynol ar gyfer athrawon cyflenwi a geir trwy ddarpariaeth Cyngor y Gweithlu Addysg?**

Bydd unrhyw ddysgu proffesiynol y mae Cyngor y Gweithlu Addysg yn ei ddarparu yn ymwneud yn benodol â'i gyfrifoldebau statudol, yn enwedig y Cod Ymddygiad ac Ymarfer Proffesiynol. Mae dysgu proffesiynol o'r fath yn agored i bob un sydd wedi cofrestru, gan gynnwys athrawon cyflenwi a gweithwyr cymorth dysgu cyflenwi mewn ysgolion ac fel y cyfryw nid yw Cyngor y Gweithlu Addysg yn nodi eu ffigurau presenoldeb yn ôl grŵp penodol.

10. **A allwch ddarparu copi o gyflog ac amodau athrawon cyflenwi Corff Adolygu Cyflogau Annibynnol Cymru i'r Pwyllgor, pan gaiff ei gyhoeddi?**

Nid yw hwn wedi'i gyhoeddi eto ond byddwn yn ei rannu cyn gynted ag y bydd ar gael.

11. **Nodwn fod y cynllun peilot ar Ynys Môn yn parhau o hyd. Pan fydd y cynllun peilot hwn wedi dod i ben, hoffai'r Pwyllgor glywed gennych am eich gwerthusiad o'r cynllun peilot.**

Mae'r broses gychwynnol o gyflwyno'r cynllun peilot yn Ynys Môn yn un barhaus gyda'r awdurdod lleol yn gweithio'n agos gydag ysgolion a'r sawl sy'n archebu athrawon. O'r dechrau, roedd modd i ysgolion ddefnyddio'r llwyfan archebu, yn ogystal â chysylltu'n uniongyrchol â'r awdurdod lleol i sicrhau staff cyflenwi. Fodd bynnag, rydym ar ddeall bod Ynys Môn bellach yn bwriadu i bob ysgol newid i archebu drwy'r llwyfan newydd yn gyfan gwbl yn ystod yr wythnosau nesaf. Rydym yn fwy na pharod i gysylltu â chydweithwyr yn Ynys Môn i gael eu hasesiad cychwynnol o'r llwyfan a'u profiadau o'r broses gyflwyno ar ôl y newid hwn.

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 5

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Archwilio Cymru
Audit Wales

# O Ymdrin â Heriau Wrth Iddynt Godi i Ddiogelu at y Dyfodol – yr Her i Wasanaethau Cyhoeddus Cymru

Chwefror 2024

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi paratoi'r ddogfen hon o dan ei bwerau atodol a ddarparwyd gan adran 9 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013. Mae'n tynnu ar ddeunydd a materion sy'n deillio o arfer ei brif swyddogaethau archwilio, megis y rhai a ddarperir gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol o'r Senedd ac o lywodraeth. Mae'n archwilio ac yn ardystio cyfrifon Llywodraeth Cymru a'r cyrff cyhoeddus sy'n gysylltiedig â hi ac a noddir ganddi, gan gynnwys cyrff y GIG. Mae ganddo'r pŵer i gyflwyno adroddiadau i'r Senedd ar ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y defnydd a wna'r sefydliadau hynny o'u hadnoddau wrth gyflawni eu swyddogaethau, a sut y gallent wella'r defnydd hwnnw.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, mae'n cynnal astudiaethau gwerth am arian mewn llywodraeth leol.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sydd yn fwrdd statudol wedi'i sefydlu ar gyfer y nod hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

Archwilio Cymru yw brand ymbarél Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n endidau cyfreithiol ar wahân gyda'u swyddogaethau cyfreithiol eu hunain. Nid yw Archwilio Cymru ei hun yn endid cyfreithiol. Er bod gan yr Archwilydd Cyffredinol y swyddogaethau archwilio ac adrodd a ddisgrifir uchod, prif swyddogaethau Swyddfa Archwilio Cymru yw darparu staff ac adnoddau eraill ar gyfer arfer swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol, ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2024

Cewch ailddefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys y logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng. Os byddwch yn ei ailddefnyddio, rhaid i chi ei ailddefnyddio'n gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a rhaid rhoi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle nodwyd deunydd hawlfraint unrhyw drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw cyn ei ailddefnyddio.

Am fwy o wybodaeth, neu os ydych angen unrhyw un o'n cyhoeddiadau mewn ffurf ac/neu iaith wahanol, cysylltwch â ni drwy ffonio 029 2032 0500 neu drwy e-bostio post@archwilio.cymru. Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Gallwch ysgrifennu atom hefyd, yn Gymraeg neu'n Saesneg, a byddwn yn ymateb yn yr iaith rydych chi wedi ei defnyddio. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

This document is also available in English.

# Cynnwys


Cyflwyniad 4

Y rhagolygon ariannol ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus 5

- Pwysau cyllideb Llywodraeth Cymru yn 2023-24 5
- Edrych ymlaen at 2024-25 a'r tu hwnt 6
- Y darlun ar draws y sectorau yr ydym yn eu harchwilio 7

Ymaetb i'r her 11

- Cost methiant mewn llywodraethu a rheolaeth ariannol 11
- Mynd i'r afael â thwyll a gwallau 12
- Tirwedd gymhleth gwasanaethau cyhoeddus 13
- Gweithlu'r dyfodol 14
- Cyflymu trawsnewid digidol 15
- Canolbwyntio ar yr egwyddor datblygu cynaliadwy 16
- Rhoi prawf ar werth am arian 17

O ymdrin â heriau wrth iddynt godi i ddiogelu at y dyfodol 18

# Cyflwyniad

1 Fel yr Archwilydd Cyffredinol, rwy'n gwbl annibynnol ar y llywodraeth. Rwyf hefyd yn y sefyllfa freintiedig o fod yn archwilydd allanol i'r rhan fwyaf o'r sector cyhoeddus datganoledig yng Nghymru. Er bod rhaid i gyrff cyhoeddus wneud eu penderfyniadau eu hunain ynghylch sut y maent yn rheoli eu materion, mae gwaith archwilio'n rhoi rhybudd cynnar o broblemau sy'n codi, yn amlygu cyfleoedd i wella gwerth am arian, ac yn cefnogi llywodraethu da a rheolaeth ariannol dda.

2 Mae gwasanaethau cyhoeddus Cymru'n wynebu pwysau enfawr o safbwynt ariannol, o ran y galw ac o ran y gweithlu. Gan gymryd hyn fel fy man cychwyn, mae'r erthygl hon yn tynnu ar waith Archwilio Cymru i fyfyrio ar y ffordd y mae ein cyrff cyhoeddus yn cael eu llywodraethu a'u rheoli, pwysigrwydd lleihau i'r eithaf golledion trwy dwyll a gwallau, tirwedd gymhleth gwasanaethau cyhoeddus, a heriau o ran capasiti'r gweithlu, trawsnewid digidol, a chynllunio ar gyfer y tymor hir. Mae hefyd yn pwysleisio'r angen yn fwy nag erioed i sicrhau gwerth am arian mewn gwariant cyhoeddus.

3 Mae ein gwaith yn dangos, trwy fynd i'r afael â'r themâu hyn, y gallai'r llywodraeth a sefydliadau cyhoeddus gyflawni mwy gyda'r hyn y maent eisoes yn ei wario. Mae faint yn union yn dibynnu ar y cwestiwn i ba raddau y bydd cyrff yn blaenoriaethu'r materion a nodir gennyf. Fodd bynnag, rwy'n argyhoeddedig y byddent yn cyfrannu'n sylweddol at yr her ariannol sy'n wynebu ein gwasanaethau cyhoeddus. Maent hefyd yn hanfodol er mwyn i ni weld newid o ymdrin yn ddi-baid â heriau uniongyrchol heddiw i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus cynaliadwy sy'n addas ar gyfer y dyfodol.



**Adrian Crompton**
Archwilydd Cyffredinol Cymru

# Y rhagolygon ariannol ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus

## Pwysau cyllideb Llywodraeth Cymru yn 2023-24

4 Eleni mae chwyddiant uchel wedi erydu gallu Llywodraeth Cymru i wario. Mae codiadau cyflog yn y sector cyhoeddus wedi bod yn ffactor arwyddocaol. Mae chwyddiant prisiau adeiladu a chyfraddau llog uwch wedi taro rhaglenni cyfalaf ar gyfer buddsoddi mewn seilwaith. Mae galwadau uwch, gan gynnwys galw cronedig o'r pandemig ac anghydraddoldeb cynyddol, yn ychwanegu at y pwysau ar lawer o wasanaethau rheng-flaen.

5 Mewn ymateb, mae Llywodraeth Cymru wedi adnabod arbedion ar draws cyllidebau adrannol, gan gydnabod bod rhai o'r rhain yn debygol o gael effeithiau negyddol[1]. Mae hefyd wedi tynnu ar ei chronfeydd wrth gefn, wedi cynllunio ar gyfer defnyddio cyllid canlyniadol a ddisgwylir gan Lywodraeth y DU, ac wedi gofyn am newid mewn cyllid o gyllid cyfalaf i gyllid refeniw.

6 Er y gallai'r camau hyn leddfu rhai pwysau uniongyrchol, maent yn annhebygol o fod yn strategaeth gynaliadwy ar gyfer rheoli gwariant dros y tymor hwy.

1 Llywodraeth Cymru, Diweddariad ar sefyllfa ariannol 2023-2024: crynodeb o'r prif newidiadau, Hydref 2023

# Edrych ymlaen at 2024-25 a'r tu hwnt

7 Mae cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2024-25 yn dyrannu £26.4 biliwn, i fyny o £25.2 biliwn yn 2023-24[2].

8 Mewn termau real, mae cyllid refeniw o ddydd i ddydd 0.4% yn uwch na'r flwyddyn ariannol hon. Mae'r gyllideb gyfalaf 1.7% yn uwch. Ym mis Hydref 2023, cyfnewidiodd Llywodraeth Cymru beth o'i gwariant cyfalaf yn wariant refeniw. Heb y cyfnewid hwnnw, byddai gostyngiad mewn termau real wedi bod i gyllid cyfalaf yng nghyllideb 2024-25 a chynnydd mwy mewn cyllid refeniw.

9 Islaw'r prif ffigyrau, mae cyllideb ddrafft 2024-25 yn dynodi'r canlynol:

- cynnydd o 8% mewn termau real i'r gyllideb refeniw iechyd a gofal cymdeithasol[3] o'i gymharu â'r gyllideb a bennwyd yn wreiddiol ar gyfer 2023-24. Dyrannodd datganiad y gyllideb ym mis Hydref £425 miliwn yn ychwanegol i'r GIG yn 2023-24. O'i gymharu â'r sefyllfa ddiwygiedig honno, 2.6% yw'r cynnydd mewn termau real.
- heblaw am iechyd a gofal cymdeithasol, bu gostyngiad mewn cyllid refeniw yng nghyllideb pob un o brif grwpiau gwariant Llywodraeth Cymru mewn termau real o'i gymharu â sefyllfa ddiwygiedig mis Hydref ar gyfer 2023-24.
- o fewn y gyllideb ar gyfer cyllid a llywodraeth leol, rydym yn cyfrifo bod Llywodraeth Cymru wedi cynyddu cyllid craidd i awdurdodau lleol 1.4% mewn termau real.
- yn y gyllideb materion gwledig y ceir y toriad refeniw mwyaf mewn termau real, a hithau'n gostwng 10.5% o'i gymharu â sefyllfa ddiwygiedig mis Hydref ar gyfer 2023-24.

10 Mae cynlluniau dangosol Llywodraeth y DU y tu hwnt i 2024-25 yn tynnu sylw at gyfyngu parhaus. Fodd bynnag, bydd y sefyllfa ar gyfer Cymru'n dibynnu pa un a fydd Llywodraeth y DU yn aros ar yr un cwrs ar ôl yr etholiad cyffredinol a sut y bydd ei blaenoriaethau gwariant yn effeithio ar gyllideb Llywodraeth Cymru trwy fformiwla Barnett.

2 Llywodraeth Cymru, cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru 2024-25 Rhagfyr 2023. Mae'r ffigwr ar gyfer 2023-24 yn adlewyrchu'r newidiadau a wnaed gan Lywodraeth Cymru ar 17 Hydref 2023.

3 Nid yw'r dyraniad iechyd a gofal cymdeithasol yn cynnwys y mwyafrif helaeth o gyllid ar gyfer gofal cymdeithasol, y mae Llywodraeth Cymru'n ei ddyrannu ar wahân trwy'r cyllid craidd ar gyfer llywodraeth leol.

## Y darlun ar draws y sectorau yr ydym yn eu harchwilio

11 Mae pwysau ariannol yn effeithio ar bob sefydliad sy’n rhan o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus, gan gynnwys ein sefydliadau addysg bellach ac uwch a’r trydydd sector. Mae fy nghylch gwaith yn rhoi golwg fanylach i mi ar yr effeithiau i’r sefydliadau yr wyf yn archwilio eu cyfrifon ar draws y GIG a llywodraeth leol, ac mewn llywodraeth ganolog.

**Y GIG**

12 Y GIG yw’r maes gwariant unigol mwyaf, gan roi cyfrif am fwy na hanner cyllideb refeniw Llywodraeth Cymru. Serch hynny, rwyf wedi nodi o’r blaen nad yw gwariant ar iechyd yng Nghymru yn berthynol i Loegr erioed wedi cyfateb i’r lefelau uwch o angen yng Nghymru, na’r lefelau uwch o gyllid y mae Cymru’n eu cael i gefnogi gwasanaethau datganoledig.

13 Mae’r GIG yn wynebu pwysau sylweddol o ran costau a’r galw, gan gynnwys o blith poblogaeth gynyddol o bobl hŷn, datblygiadau meddygol ac ôl-groniadau o ran rhestrau aros a waethygwyd gan y pandemig. Ar ddiwedd 2022-23, methodd chwech o’r saith bwrdd iechyd â chyflawni eu dyletswydd statudol i fantoli’r cyfrifon dros gyfnod o dair blynedd. Roedd y darlun ar y cyfan ar draws GIG Cymru’n un o ddiffyg o £150 miliwn, o’i gymharu â diffyg o £47 miliwn yn 2021-22. Mae ein hofferyn data cyllid y GIG yn darparu rhagor o fanylion[4].

14 Ym mis Hydref 2023, dyrannodd Llywodraeth Cymru £425 miliwn ychwanegol i helpu i reoli pwysau yn ystod y flwyddyn. Fodd bynnag, mae’r darlun yn ystod y flwyddyn ar hyn o bryd yn dangos bod diffyg o hyd yn 2023-24, gyda chwech o’r saith bwrdd iechyd yn gweithio i ddiffygion diwedd blwyddyn ‘dan reolaeth’ sy’n gyfanswm o £123 miliwn. Mae eu rhagolygon yn dynodi y bydd hyd yn oed cyflawni’r cyfansymiau rheoli hynny’n gryn her, ac yn annhebygol i rai.

4 Offeryn Data GIG Cymru gan Archwilio Cymru, diweddarwyd ym mis Medi 2023 ar gyfer data hyd at 31 Mawrth 2023

15 Mae'r sefyllfa wedi ysgogi ffocws cenedlaethol o'r newydd ar effeithlonrwydd, gwerth a chynaliadwyedd gyda disgwyliad y bydd cyfleoedd ariannol a adnabuwyd gan ffrydiau gwaith cenedlaethol yn cael eu cyflawni'n lleol gan gyrff y GIG. Bydd rhaid aros i weld i ba raddau y bydd hyn yn digwydd. Mae'r blynyddoedd diwethaf yn dangos darlun cymysg o lwyddiant o ran cyrraedd targedau mewn cynlluniau arbedion.

16 Er gwaethaf cynnydd mewn termau real yn y gyllideb ar gyfer 2024-25, heb welliant parhaus mewn cynhyrchiant, bydd y GIG yn ei chael hi'n anodd gwneud cynnydd sylweddol mewn meysydd allweddol megis mynd i'r afael ag ôl-groniadau o ran rhestrau aros. Her benodol fydd mynediad at gyllid cyfalaf i sicrhau gwelliannau angenrheidiol i ystâd y GIG. Cofnododd data gan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru gyfanswm ffigwr ar gyfer gwaith cynnal a chadw wedi ôl-gronni o £793 miliwn ar draws holl gyrff y GIG yn 2022-23.

**Llywodraeth leol**

17 Am dros ddegawd, rydym wedi bod yn tynnu sylw at y pwysau cynyddol mewn llywodraeth leol. Mae rhai meysydd gwasanaethau wedi profi gostyngiadau sylweddol yn eu cyllid mewn termau real yn barod dros y cyfnod hwnnw, tra bo tueddiadau hirsefydlog yn y galw mewn meysydd fel gofal cymdeithasol a thai wedi gwaethygu'r sefyllfa o ran cyllid.

18 Un dangosydd ar gyfer cydnerthedd ariannol yw lefel y cronfeydd wrth gefn sydd gan gynghorau i oroesi'r pwysau. Roedd lefel y cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy ar ddiwedd 2022-23 yn sylweddol uwch na chyn y pandemig. Ar ddiwedd mis Mawrth 2020, roedd y cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy a oedd yn cael eu dal gan gynghorau'n gyfanswm o oddeutu £1.1 biliwn. Erbyn diwedd mis Mawrth 2022, oddeutu £2.1 biliwn oedd y ffigwr ac erbyn diwedd mis Mawrth 2023 oddeutu £2.0 biliwn ydoedd.

19 Fel yr wyf wedi'i nodi mewn sylwadau o'r blaen, mae rhai cynghorau mewn sefyllfa well nag eraill i ymateb i'r heriau ariannol sydd o'u blaenau. Ar ddiwedd mis Mawrth 2023, roedd cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy cynghorau[5] yn amrywio'n sylweddol, gyda'r uchaf fel cyfran o gost net gwasanaethau a ddarperir yn 40% a'r isaf yn 12%. Mae'r diweddariad diweddaraf i'm Hofferyn Data Cynaliadwyedd Ariannol Llywodraeth Leol yn rhoi rhagor o fanylion[6].

20 Rydym hefyd yn dechrau gweld effaith pwysau o ran costau ar falansau ysgolion. Er bod cronfeydd wrth gefn ysgolion ar y cyfan wedi cynyddu'n sylweddol yn ystod y pandemig, fe wnaethant ostwng oddeutu 31% rhwng mis Mawrth 2022 a 2023, o £301 miliwn i £208 miliwn[7]. Fodd bynnag, arhosodd balansau ysgolion ar y cyfan yn sylweddol uwch na'r lefelau cyn y pandemig, sef £32 miliwn ar ddiwedd mis Mawrth 2020.

21 Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru[8] a Phrifysgol Caerdydd[9] wedi rhagfynegi bylchau sylweddol o ran cyllid ar gyfer llywodraeth leol yn 2024-25 a'r tu hwnt, yn seiliedig ar y galw a thaflwybrau cyllido ar hyn o bryd.

22 Yn Lloegr, mae hysbysiadau Adran 114[10] wedi cael eu cyhoeddi mewn sawl cyngor dros y blynyddoedd diwethaf a gallai rhagor gael eu cyhoeddi eleni. Mae'r sefyllfa yng Nghymru'n dal i gymharu'n ffafriol; fodd bynnag, mae'n anochel y bydd y risg o gyhoeddi hysbysiad Adran 114 mewn cyngor yng Nghymru'n cynyddu yn 2024-25 a'r tu hwnt oni bai y ceir newid sylweddol yn y rhagolygon cyllido.

5 Rydym yn diffinio cronfeydd ariannol wrth gefn defnyddiadwy fel cronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio ar gyfer costau refeniw, lle nad yw'r diben wedi'i ddiogelu gan y gyfraith. Cyfanswm y gronfa gyffredinol, cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi a balansau ysgolion yw hyn. Nid yw'n cynnwys y Gronfa Refeniw Tai, derbyniadau cyfalaf a grantiau cyfalaf heb eu cymhwyso.

6 Archwilio Cymru, Offeryn Data Cynaliadwyedd Ariannol Llywodraeth Leol, diweddarwyd ym mis Ionawr 2024 ar gyfer data o ran y sefyllfa ar 31 Mawrth 2023

7 Llywodraeth Cymru, Cronfeydd wrth gefn ysgolion, wedi'u diweddaru Hydref 2023 ar gyfer data ar 31 Mawrth 2023

8 Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Ariannu Gwasanaethau Lleol 2024-25, Rhagfyr 2023

9 Dadansoddi Cyllid Cymru, Y rhagolygon cyllidol tymor canolig ar gyfer llywodraeth leol yng Nghymru, Hydref 2023

10 O dan Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988, rhaid i brif swyddog cyllid Cyngor gyhoeddi hysbysiad Adran 114 mewn amgylchiadau penodol, gan gynnwys os yw'n ymddangos iddynt bod gwariant a ysgwyddir gan yr awdurdod (gan gynnwys gwariant y mae'n bwriadu ei ysgwyddo) mewn blwyddyn ariannol yn debygol o fod yn fwy na'r adnoddau (gan gynnwys symiau a fenthyciwyd) sydd ar gael iddo i ariannu'r gwariant hwnnw. Effaith hyn, ymhlith pethau eraill, yw gosod cyfyngiadau ar wariant newydd. Mae hefyd fel arfer yn golygu bod cyngor yn debygol o geisio toriadau sylweddol i wariant, ac felly o bosibl gwasanaethau, i adfer ei sefyllfa ariannol.

**Cyrff llywodraeth ganolog**

23 Mae’r cyrff llywodraeth ganolog rwy’n eu harchwilio’n amrywio o ran maint a gweithgarwch. Mae Llywodraeth Cymru ei hun yn amcanu at leihau costau rhedeg, gan gynnwys gostyngiad o 9% mewn termau real yn y gyllideb ar gyfer costau staff o’i gymharu â’r gyllideb a bennwyd ar gyfer 2023-24.

24 Mae cyrff yn y sector diwylliant yn wynebu her amlwg. Ar gyfer Cyngor Celfyddydau Cymru, Chwaraeon Cymru, Amgueddfa Cymru, a Llyfrgell Genedlaethol Cymru, mae’r gyllideb ddrafft yn nodi toriadau refeniw mewn termau real sydd rhwng 8% ac 11%. Daw’r toriadau hyn ar ben gostyngiadau yn y cyllid mewn blynyddoedd cynharach. Mae’r gyllideb yn dangos gostyngiad refeniw mwy byth, sef 21%, mewn termau real ar gyfer Cadw, sy’n gofalu am safleoedd treftadaeth ac sy’n rhan o Lywodraeth Cymru.

25 Mae rhai cyrff yn debygol o drosglwyddo gostyngiadau i’r sefydliadau allanol y maent yn eu hariannu, gydag effeithiau i gymunedau lleol. Yn y pen draw, efallai y bydd graddfa’r gostyngiadau’n golygu bod angen gofyn cwestiynau anodd am flaenoriaethau a pha un a allant gynnal gwasanaethau ar lefel i gyflawni eu swyddogaethau’n effeithiol.

# Ymaetb i'r her

## Cost methiant mewn llywodraethu a rheolaeth ariannol

26 Weithiau, mae gennyf achos i adrodd ar wendidau mewn rheolaeth a llywodraethu ariannol, gan gynnwys yn fwyaf diweddar yn Amgueddfa Cymru ac ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Yr hyn sydd bob amser yn drawiadol mewn achosion o'r fath yw cost uchel ymateb i'r materion sylfaenol.

27 Mae peth o'r gost hon yn haws i'w hadnabod, er enghraifft, gwario cannoedd o filoedd o bunnoedd neu fwy ar wasanaethau cyfreithiol neu ymgynghoriaeth. At hyn gellir ychwanegu'r miloedd o oriau o amser a gollwyd yn ymdrin â'r materion yn y cyrff dan sylw neu ar draws sefydliadau eraill, gan gynnwys costau sy'n ymwneud ag atebolrwydd cyhoeddus trwy'r broses archwilio, craffu ehangach a, lle y bo'n berthnasol, ymyrraeth gan y llywodraeth. Ond efallai mai'r effaith andwyol fwyaf yw sut y gall y materion hyn dynnu sylw sefydliadau oddi ar eu hamcanion craidd a'u gwasanaethau ar gyfer y cyhoedd.

28 Wrth i adnoddau ariannol a dynol ddod dan fwy o bwysau, mae'r risg o fethiannau mewn trefniadau llywodraethu a/neu fethiannau eraill mewn gwasanaethau'n cynyddu. Nid oes a wnelo hyn dim ond â systemau a phrosesau; mae a wnelo hefyd ag ymddygiadau a phwysigrwydd dangos ymrwymiad clir i egwyddorion Nolan, sef Anhunanoldeb, Uniondeb, Gwrthrychedd, Atebolrwydd, Bod yn Agored, Gonestrwydd ac Arweinyddiaeth. Dylai'r rhain ddarparu arweiniad ar gyfer ymddygiad pawb mewn uwch swyddi o awdurdod a dylanwad.

29 Pan fydd safonau'n llithro, bydd costau pellach yn dilyn, ynghyd ag erydu ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd. Bob tro y bydd y cyhoedd yn gweld y math o fethiannau o ran ymddygiad a llywodraethu yr wyf wedi adrodd arnynt, mae eu hymddiriedaeth yn y rhai sy'n arwain ein gwasanaethau cyhoeddus yn cael ei niweidio. Mae hynny, yn ei dro, yn ei gwneud hi'n anos ennill cefnogaeth y cyhoedd lle mae angen gwneud newidiadau mwy sylfaenol.

## Mynd i'r afael â thwyll a gwallau

30 Er bod y ddadl am gyllid cyhoeddus yn aml yn canolbwyntio ar doriadau mewn gwariant a/neu godi trethi, ychydig iawn a ddwedir am dwyll a gwallau. Eto i gyd, mae'n dal i fod yn fall ar wasanaethau cyhoeddus. Mae Awdurdod Twyll y Sector Cyhoeddus yn amcangyfrif bod twyll a gwallau'n effeithio ar o leiaf £33 biliwn o arian trethdalwyr y DU (gan gynnwys treth a lles) bob blwyddyn.

31 Mae'r cyfleoedd yn sylweddol, felly, os oes ewyllys i'w canlyn. Ar ben hynny, os yw'r rhai sy'n ceisio cyflawni twyll yn synhwyro diffyg gwyliadwriaeth gan sefydliadau, gallai'r risgiau gynyddu. Rydym wedi gweld, er enghraifft, lle mae amser ac ymdrech ychwanegol yn gwneud gwaith dilynol ar wiriadau mewn perthynas â chymorth busnes yn ystod y pandemig wedi dwyn ffrwyth.

32 Rwy'n ofni ei bod yn rhy hawdd i gyrff cyhoeddus feddwl am eu buddsoddiad mewn gwaith atal twyll fel moethusrwydd yn hytrach nag anghenraid ymhlith pwysau eraill. Mae ein gwaith ni ein hunain yn y maes hwn yn cynnwys hwyluso'r Fenter Twyll Genedlaethol (NFI) yng Nghymru – rhan o ymarfer rhannu a pharu data ledled y DU. Er bod y rhan fwyaf o gyfranogwyr y Fenter Twyll Genedlaethol yn dangos ymrwymiad cryf i'r ymarfer, ymddengys nad yw rhai'n cydnabod ei bwysigrwydd neu eu bod yn amharod i ddyrannu'r adnoddau angenrheidiol i ymchwilio i bariadau.

33 Mae gwaith paru data arall yr ydym wedi'i wneud ar fferylliaeth gymunedol hefyd yn codi cwestiynau pa un a yw'r risgiau o dwyll a gwallau'n cael y sylw y maent yn ei haeddu.

## Tirwedd gymhleth gwasanaethau cyhoeddus

34 Yn 2018, myfyriodd fy rhagflaenydd fel a ganlyn: ‘i wlad o faint Cymru, mae strwythur sefydliadol cymhleth gwasanaethau cyhoeddus yn rhwystr i ddylunio gwasanaethau mewn modd cydgysylltiedig a’u darparu’n effeithlon’. Dros bum mlynedd yn ddiweddarach, a deng mlynedd ers i ‘Gomisiwn Williams’ amlygu pryderon tebyg, mae’r dirwedd wedi dod yn fwy cymhleth byth.

35 Rydym wedi gweld mwy o gyrff yn cael eu creu, a deddfwriaeth newydd sy’n effeithio ar sut y mae cyrff cyhoeddus yn cynllunio ac yn darparu gwasanaethau. Fel y mae ein gwaith blaenorol wedi’i ddangos[11], nid yw’r newidiadau hyn bob amser yn cyd-fynd â realiti eu gweithredu o safbwynt ymarferol ac o safbwynt capasiti nac yn adlewyrchu hynny.

36 Rwy’n cydnabod y bydd bwriad cadarnhaol y tu ôl i greu cyrff newydd sy’n sefyll ar eu pennau eu hunain neu ofynion deddfwriaethol ychwanegol. Fodd bynnag, daw’r rhain â chost yn eu sgîl. Ar gyfer cyrff sy’n sefyll ar eu pennau eu hunain, mae hynny’n cynnwys y gorbenion sy’n deillio o redeg sefydliadau a’r fframwaith atebolrwydd y maent yn gweithredu ynddo. Mewn rhai achosion, mae’r gorbenion hynny’n gyfran sylweddol o wariant gweithredu cyrff ar y cyfan.

37 Ynghanol pwysau ariannol parhaus, mae’n hanfodol gofyn a yw tirwedd gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru a’r disgwyliadau a osodir arnynt yn gynaliadwy. Pa bynnag dirwedd sy’n bodoli, rhaid i’r rhai sy’n gyfrifol amdani ddangos ei bod yn rhoi gwerth da am arian i ddinasyddion. Mae hyn yn cynnwys cael y gorau o ffyrdd newydd o weithio wrth i rai cyrff edrych yn gynyddol tuag at raglenni a reolir gan Lywodraeth y DU, ochr yn ochr â chyllid gan Lywodraeth Cymru, i roi cymorth i gyflawni eu hamcanion.

11 Archwilydd Cyffredinol Cymru, Gwell llunio deddfau: yr her weithredu, Medi 2020

## Gweithlu'r dyfodol

38 Y llynedd, disgrifiodd Pwyllgor Cyllid Senedd Cymru weithlu'r sector cyhoeddus fel un a oedd '... mewn sefyllfa anodd, heb ddigon o adnoddau, ac o dan ormod o bwysau'[12]. Rwy'n adnabod y darlun hwn o'n gwaith archwilio ni ein hunain.

39 Gwelwn gyrff cyhoeddus yn wynebu cystadleuaeth fwyfwy ffyrnig am sgiliau sy'n aml yn brin. Yn y GIG, rydym wedi amlygu trosiant uchel a dibyniaeth gynyddol ar staff dros dro sydd fel arfer yn fwy costus nad yw ond yn ychwanegu at y pwysau ariannol. Rydym wedi gweld trosiant amlwg mewn uwch swyddi mewn rhai cyrff cyhoeddus ers pan oedd y pandemig ar ei anterth a heriau o ran recriwtio ar y lefelau hynny hefyd. Ac wrth i genedlaethau newydd ddod i mewn i'r gweithlu gwasanaeth cyhoeddus, ac i drefniadau gweithio hybrid ddod yn norm i lawer, mae cyrff cyhoeddus yn dysgu sut y mae model cyflogaeth mwy hyblyg yn effeithio ar gynhyrchiant ac ymgysylltiad gweithwyr.

40 Fel y dengys llawer o waith Archwilio Cymru, rhaid canolbwyntio ar gynllunio'r gweithlu yn yr hirdymor ar draws sectorau a phroffesiynau. Fodd bynnag, nid yw dim ond dychmygu gweithlu'r dyfodol yn ddigon. Rhaid ategu hynny â chamau gweithredu ar y cyd i fuddsoddi mewn gyrfaoedd mewn gwasanaeth cyhoeddus a darparu cymhelliant ar eu cyfer. Yn y cyfamser, mae angen i gyrff cyhoeddus weithio gyda'i gilydd i wneud y defnydd gorau o'r capasiti a'r arbenigedd presennol.

12 Pwyllgor Cyllid Senedd Cymru, Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2023-24, Chwefror 2023

## Cyflymu trawsnewid digidol

41 Mae technoleg eisoes yn bodoli i drawsnewid y modd y darperir gwasanaethau, lleihau costau a gwella profiad y defnyddiwr. Fel y dengys ein gwaith yn aml, fodd bynnag, mae hyn yn galw am newid systemau TG sy'n perthyn i'r oes a fu, gwella ansawdd data a'r gallu i'w rannu, a recriwtio a chadw sgiliau prin y mae galw mawr amdanynt.

42 Rwy'n pryderu, felly, am gyflymder cyffredinol y cynnydd o ran harneisio technoleg ddigidol i wella gwasanaethau cyhoeddus. Mae'r pwysau ariannol yr wyf eisoes wedi'u disgrifio'n cyflwyno heriau ar gyfer buddsoddi mewn technoleg ddigidol, er y dylai datrysiadau o'r fath arwain at wasanaethau mwy effeithlon neu effeithiol.

43 Ochr yn ochr ag anawsterau cytundebol ac oedi gyda rhai prosiectau TGCh, nid ydym bob amser yn gweld tystiolaeth glir bod buddsoddiad sylweddol mewn systemau newydd yn dwyn y manteision a fwriadwyd.

44 Er eu holl fanteision posibl, mae ein dibyniaeth gynyddol ar systemau digidol hefyd yn arwain at fwy o risgiau. Rydym wedi gweld hyn mewn gwersi yr ydym wedi'u rhannu gyda chyrff cyhoeddus o ymosodiadau seiber diweddar yng Nghymru ac mewn mannau eraill. Yn debyg iawn i waith ar atal twyll, mae ein gwaith archwilio ar seibergadernid wedi canfod bod y flaenoriaeth a roddir iddo ac ymarfer yn hynny o beth yn amrywio. Mae angen i gyrff cyhoeddus gydnabod effeithiau dinistriol posibl digwyddiad seiber a chynllunio yn unol â hynny, gan gofio bod sefydliadau bychain yn ddim llai o darged.

45 Mae angen taro cydbwysedd hefyd rhwng gwariant ar seilwaith a systemau ar y naill law a gwaith i fynd i'r afael ag allgáu digidol ar y llaw arall. Heb hyn, rydym mewn perygl o greu cymdeithas ac iddi ddwy haen o ran mynediad at wasanaethau cyhoeddus a gwasanaethau eraill.

## Canolbwyntio ar yr egwyddor datblygu cynaliadwy

46 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn darparu fframwaith i helpu cyrff cyhoeddus i fynd i'r afael â chymhlethdod a thorri cylchoedd lle gwneir penderfyniadau byrdymor. Mae 'egwyddor datblygu cynaliadwy' y Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus daro cydbwysedd rhwng yr hyn y mae angen iddynt ei gyflawni heddiw a'r hyn y mae angen iddynt hwy a chenedlaethau'r dyfodol ei gyflawni yn y dyfodol. Os na wnânt hynny, maent mewn perygl o leihau llesiant a chynyddu costau dros y tymor hir.

47 Rydym yn gweld enghreifftiau o gyrff cyhoeddus yn deall yr hyn y mae ei angen yn ôl y Ddeddf ac yn gweithredu'n fwy unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy. Ond mae cynllunio hirdymor yn dal i fod yn her i lawer, a hynny'n gysylltiedig yn rhannol â materion o ran maint yr sicrwydd wrth bennu cyllidebau hyd yn oed ar gyfer y tymor canolig.

48 Pan fydd cyrff yn cynllunio ymhellach ymlaen, nid ydym bob amser yn gweld asesiad clir o adnoddau ariannol y gallai fod eu hangen i gyflawni eu hamcanion datganedig a'r gobaith o sicrhau'r adnoddau hynny. Er enghraifft, rydym wedi pwysleisio o'r blaen bod angen i gyrff cyhoeddus fod â gafael gryfach ar sut y bydd buddsoddi mewn datgarboneiddio'n cael ei gefnogi[13].

49 Yn sylfaenol, mae cyrff cyhoeddus yn dal i'w chael yn anodd dangos newid mewn adnoddau tuag at atal ynghanol pwysau byrdymor. Mae rhai systemau atebolrwydd presennol yn darparu cymhelliad i feddwl yn gul neu am y tymor byr. Mae angen i hyn newid er mwyn i Gymru wireddu uchelgeisiau'r Ddeddf ac osgoi costau uwch yn y dyfodol.

50 Er enghraifft, yn ei chyllideb ddrafft ar gyfer 2024-25 mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod nad yw wedi gallu ariannu rhai polisïau iechyd ataliol fel a fwriadwyd yn wreiddiol ac yn unol â'r galw. Mae'n cydnabod y gallai hyn 'effeithio ar gapasiti gwasanaethau atal fel rhoi'r gorau i ysmygu, rheoli pwysau a chefnogi ymarfer corff'.

13 Archwilydd Cyffredinol Cymru, Parodrwydd y Sector Cyhoeddus ar gyfer Carbon Sero Net erbyn 2030, Gorffennaf 2023

51 Enghraifft arall yw sut y mae cyrff cyhoeddus yn rheoli eu sylfaen asedau. Mae newid ffyrdd o weithio'n effeithio ar ofynion hirdymor o ran ystadau. Mae hyn yn agor y drws i ostyngiadau mewn costau rhedeg ac allyriadau carbon, ffrydiau incwm ychwanegol, enillion cyfalaf o warediadau, a chyfleoedd i gefnogi amcanion adfywio ehangach. Serch hynny, mae sylfaen asedau gwasanaethau cyhoeddus a'i chost gysylltiedig yn dal i fod yn sylweddol, ac mae'r math o ôl-groniad o ran gwaith cynnal a chadw y cyfeiriais ato o'r blaen ar gyfer y GIG yn syml yn gwneud i broblemau bentyrru ar gyfer y dyfodol. Yn yr un modd mae pryderon am y concrit a ddefnyddir yn rhai o'n hadeiladau cyhoeddus yn amlygu pwysigrwydd cynnal a chadw ac adnewyddu'r ystâd gyhoeddus fel elfen o effeithlonrwydd cyffredinol.

## Rhoi prawf ar werth am arian

52 Er bod gwaith archwilio'n gallu archwilio gwerth am arian, ni all archwilwyr fod ym mhobman. Mae'r atebolrwydd am ystyried gwerth am arian yn nwylo cyrff cyhoeddus a'u huwch benderfynwyr.

53 Yn gyson â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, mae angen i gyrff cyhoeddus ystyried gwerth am arian gan fod â golwg eang sy'n cydnabod costau a manteision posibl yn gyffredinol ac er budd llesiant hirdymor y cymunedau y maent yn eu gwasanaethu. Ond rhaid iddynt hefyd daro cydbwysedd priodol rhwng dadansoddi a pharlys, gan fod yn barod i gymryd risgiau a reolir yn dda fel a bwysleisiwyd yn aml gan fy rhagflaenydd.

54 Mae gosod deilliannau eglur, mesuradwy ar ddechrau prosiectau a rhaglenni allweddol, ynghyd â monitro a gwerthuso effeithiol, yn darparu'r sail ar gyfer asesu a gyflawnwyd gwerth am arian. Dylai tystiolaeth o'r gweithgarwch monitro a gwerthuso hwnnw oleuo prosesau penderfynu yn y dyfodol. Mae gan drethdalwyr hawl i weld y dystiolaeth honno hefyd, trwy adroddiadau cyhoeddus gwell.

55 Er ein bod yn byw mewn oes sy'n fwyfwy seiliedig ar ddata, mae fy ngwaith archwilio'n parhau i amlygu gwendidau yn y trefniadau hyn yn rhy aml o lawer. Rwy'n pryderu y bydd cyfyngiadau ariannol ac o ran capasiti'n achosi i gyrff cyhoeddus dorri corneli hyd yn oed ymhellach yn eu harfarniad o benderfyniadau gwario ac yn eu gwaith i fonitro a gwerthuso effaith y gwariant hwnnw. Byddai hynny'n amlwg yn ffug gynildeb.

# O ymdrin â heriau wrth iddynt godi i ddiogelu at y dyfodol

56 Rydym yn gweld bob dydd sut y mae gweision cyhoeddus yn gweithio'n ddiflino i ddarparu gwasanaethau yr ydym ni i gyd yn dibynnu arnynt. Ond mae cynaliadwyedd hirdymor a fforddiadwyedd gwasanaethau ac ymrwymiadau polisi cyfredol yn cael eu profi.

57 Bydd buddsoddi yn awr i fynd i'r afael â materion tymor hwy - gan gynnwys yr agenda sero net, effaith newid demograffig, ac anghydraddoldebau yn ein cymdeithas – yn her anferthol pan fo cyllid yn brin. Ond mae'n hanfodol er mwyn i wasanaethau cyhoeddus ddianc o duedd droellog i ymdrin â heriau wrth iddynt godi gan feddwl am y byrdymor. Mae angen i gyrff cyhoeddus sicrhau eu bod yn gwneud y mwyaf o werth hirdymor o'u gwariant tra'n ysgwyddo costau y gellir eu hosgoi yn y fan a'r lle.

58 Ni allwn ddibynnu ar y ffordd y bu pethau'n cael eu gwneud yn y gorffennol i ddiogelu ein gwasanaethau cyhoeddus at y dyfodol, a phe baem yn dechrau â dalen wag, byddem yn annhebygol o ddylunio pethau fel y maent. Bydd angen gweledigaeth feiddgar i ailddychmygu sut allai gwasanaethau cyhoeddus edrych a dewrder, ysgogiad ac ymrwymiad hirdymor i weithredu newid.

59 Bydd gwneud pethau'n wahanol hefyd yn galw am hyder ac ymddiriedaeth y cyhoedd. Felly, mae sicrhau ffocws cryf ar safonau llywodraethu a rheolaeth ariannol, tryloywder ynghylch gwneud penderfyniadau, a'r safonau ymddygiad y mae gan y cyhoedd hawl i'w disgwyl, yn hanfodol. Byddaf yn parhau i daflu goleuni lle nad felly y mae hi, a lle gwelaf gyfleoedd i wella gwerth am arian er budd pawb mewn cymdeithas.

60 Gobeithio bod yr erthygl hon yn tynnu sylw at themâu a all helpu'r sector cyhoeddus i gyflawni mwy gyda'r arian y mae'n ei wario a galluogi newid i wasanaethau cyhoeddus mwy cynaliadwy. Gobeithio hefyd y bydd yn cynorthwyo'r Senedd i arfer ei swyddogaethau seneddol hanfodol i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif a chraffu ar ei chynigion polisi, cyllidebol a deddfwriaethol.

**Archwilio** Cymru
**Audit** Wales

Archwilio Cymru

1 Cwr y Ddinas

Stryd Tyndall

Caerdydd CF10 4BZ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: gwybodaeth@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.